Cyngor Dinas Bangor

Pwyllgor Cyllid a Llywodraethu

Nos Lun 12 Hydref 2026, Neuadd y Penrhyn, 17:30

Yn bresennol

Cynghorwyr:	Cyng: John Wynn Jones (Cadeirydd), Gwynant Roberts (Is-g'['adeirydd), Delyth Russell, Huw Wyn Jones, Gareth Parry, Eirian Williams Roberts, Steve Bell, Jackie Spence
Swyddogion:	Carwyn Davies, Swyddog Gweinyddol
Eraill:	Cyng. Elin Walker Jones (heb fod yn aelod o'r pwyllgor) 2 aelod o'r cyhoedd (ymunodd â'r cyfarfod am 18:20)
Ymddiheuriadau:	Cynghorwyr: Medwyn Hughes, Samuel Njoku, John Wyn Williams
Absennol heb ymddiheuriad:	-

Dechreuodd y cyfarfod am 17:30.

Eitem	Cyfeirnod	Gweithredu
1.	**FM25/26**	**Ymddiheuriadau:** Cyng.: Medwyn Hughes, Samuel Njoku, John Wyn Williams
2.	**FM26/26**	**Datganiad o Fuddiant Ariannol neu Gysylltiad Personol:** Datganodd y Cynghorydd Jackie Spence Gysylltiad Ariannol a Phersonol yn **Eitem 8.** Cyfeirnod y cofnod **FM32/26.**
3.	**FM27/26**	**Cyfranogiad y Cyhoedd** Dim.
4.	**FM28/26**	**Cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Llywodraethu dyddiedig 14 Medi 2026** Nid oedd y Pwyllgor yn gallu ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2026, gan nad oedd yr aelodau wedi cael cyfle i'w hadolygu ymlaen llaw. Roedd hyn oherwydd bod y cofnodion wedi'u hymgorffori yng nghorff yr e-bost yn cynnwys papurau'r cyfarfod, gan eu gwneud yn anodd dod o hyd iddynt. **Gweithredu:** gohirio cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Llywodraethu dyddiedig 14 Medi 2026. Gofyn i Gyfarwyddwr Dros Dro'r Ddinas gynnwys y cofnodion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid a Llywodraethu ar 9 Tachwedd 2026.

Blaenlythrennau'r Cadeirydd: .....

5. **FM29/26** **Adolygu'r Traciwr Gweithredu**

Nid oedd diweddariad olrhain camau gweithredu ar gael i'w gyflwyno. Nododd yr aelodau nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i pharatoi mewn pryd, ac felly gohiriwyd yr eitem.

Gweithredu: gohirio i'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraethu nesaf ar 9 Tachwedd 2026 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor.

6. **FM30/26** **Derbyn adroddiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Dros Dro**

Yn absenoldeb y Swyddog Ariannol Cyfrifol Dros Dro, cyflwynodd Carwyn Davies, y Swyddog Gweinyddol yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Trafodwyd rhai pwyntiau o'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar holl falansau banc a chronfeydd wrth gefn Cyngor y Ddinas, a diweddariad am weithredu Meddalwedd Cyfrifyddu Rialtas.

Adroddwyd bod y brydles ar gyfer Clwb Hirael bellach wedi'i chwblhau ym mis Medi 2026. Byddai angen i'r Pwyllgor Cyllid a Llywodraethu wneud penderfyniad nawr ar drefniadau ar gyfer gweinyddiaeth ariannol y ganolfan yn y dyfodol. Awgrymwyd gan archwilwyr y Cyngor y byddai angen agor cyfrif gweithredu ar wahân yn benodol ar gyfer y ganolfan i sicrhau bod cronfeydd y ganolfan yn cael eu gwahanu oddi wrth brif gyfrif gweithredu'r Cyngor. Mater arall ar y pwnc hwn y byddai angen ei ystyried hefyd fyddai'r trefniadau talu parhaus ar gyfer biliau cyfleustodau'r ganolfan yn dilyn ymddeoliad y Trysorydd presennol.

Gweithredu: gohirio'r materion sy'n codi ac sy'n ymwneud â Chlwb Hirael nes y gellir cyflwyno rhagor o wybodaeth i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Llywodraethu cyn cyfarfod y Pwyllgor nesaf fel y gellir cyflwyno'r wybodaeth yn y cyfarfod hwn i'w hystyried.

7. **FM31/26** **Adolygu ac argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol Model Diwygiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (Un Llais Cymru)**

Cafodd y Rheoliadau Ariannol Model Diwygiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (Un Llais Cymru) eu dosbarthu ymlaen llaw i'r aelodau cyn y cyfarfod hwn.

Adolygodd y Pwyllgor y Rheoliadau Ariannol Model Diwygiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (Un Llais Cymru). Argymhellodd yr aelodau y dylid diwygio ychydig mwy o bwyntiau.

Gweithredu: Diwygio geiriad paragraff 5.1 a'r geiriad ynghylch awdurdod prynu dirprwyedig. Diwygio'r holl bwyntiau sy'n cyfeirio at y gair Clerc a Swyddog Ariannol Priodol fel bod hyn yn cyd-fynd â strwythur presennol y Cyngor ac i gynnwys y geiriad Cyfarwyddwr Dinesig.

Penderfynwyd: cefnogi'r argymhelliad i'r Cyngor Llawn i fabwysiadu Rheoliadau Ariannol Model Diwygiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru (Un Llais Cymru) yn amodol ar gywiro'r materion a godwyd ac unrhyw bwyntiau drafftio pellach a hysbysir.

8. **FM32/26** **Adolygu a chymeradwyo'r Amserlen Taliadau a Throsglwyddiadau**
Datganodd y Cynghorydd Jackie Spence Gysylltiad Ariannol a Phersonol ar ***Eitem 8.*** *Cyfeirnod y cofnod* ***FM32/26*** .

Adolygodd y Pwyllgor y Rhestr Taliadau a Throsglwyddiadau ar gyfer mis Medi a mis Hydref 2026, a oedd yn cynnwys taliadau ôl-weithredol i'w cymeradwyo, taliadau y bwriedir eu gwneud, a throsglwyddiadau cysylltiedig i'w hadolygu.

Cyfanswm y taliadau ôl-weithredol oedd angen eu cymeradwyo a'r taliadau a gynigiwyd eu gwneud oedd £50,773.84, gan gynnwys TAW. Roedd dwy anfoneb, cyfanswm o £8,100.00 gan gynnwys TAW, wedi'u hatal rhag cael eu talu wrth aros am eglurhad o ymholiadau a godwyd mewn perthynas â'r anfonebau hynny.

Penderfynwyd: Argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r taliadau i'w gwneud, cyfanswm o £50,773.84 gan gynnwys TAW, a'r taliadau ôl-weithredol, cyfanswm o £36,563.04. Nodwyd bod y taliadau ôl-weithredol yn cynnwys anfonebau a oedd wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan y Pwyllgor Cyllid a Monitro a'r Cyngor Llawn.

Daeth y cyfarfod i ben am: 18:40 .

Llofnodwyd gan: **…….**

Dyddiad: **…….**